

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

2 Tachwedd 2016

Annwyl Simon,

Ar 18 Hydref, gosodais Gyllideb Ddrafft 2017-18 Llywodraeth Cymru gerbron y Cynlluniad Cenedlaethol er mwyn iddo graffu ac ymgynghori arni. Fel rhan o becyn y Gyllideb, cyhoeddais ddogfen naratif y Gyllideb sy'n cynnwys cofnod strategol o gynlluniau Llywodraeth Cymru o ran gwariant, ynghyd â'r tablau o ddyraniadau'r Gyllideb ar gyfer y Prif Grwpiau Gwariant.

Yn dilyn adolygu'r dogfennau ar ôl eu cyhoeddi, rydyn ni wedi sylwi ar nifer prin o wallau trosti a/neu theipio yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o naratif y Gyllideb a'r tablau o ddyraniadau ar gyfer y Prif Grwpiau Gwariant. Effaith ar y cyflwyniad gaiff rhain yn bennaf. Fodd bynnag, hoffwn dynnu eich sylw at y newidiadau canlynol:

- Mae tabl newydd, tabl 8.4, wedi cael ei fewnosod yn Atodiad C i roi trosolwg o'r newidiadau strwythurol sydd wedi eu gwneud i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ers cyhoeddi Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17;
- Mae tablau 8.1 i 8.9 wedi cael eu hailrifo yn 9.1 i 9.9. Yn nhabl 9.1, dylai'r swm a drosglwyddwyd o'r Prif Grŵp Gwariant lechyd, Llesiant a Chwaraeon i'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyllido cynllun sgorio hylendid bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd fod yn £57,000 yn hytrach na £59,000. Mae'r newid hwn hefyd yn effeithio ar dablau 9.2 a 9.8.

I ategu'r gwaith o graffu ar ein cynlluniau rwyf wedi cyhoeddi fersiynau wedi'u diweddarau o'r dogfennau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau.

Mark Drakeford AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Nghaerdydd
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.